Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

defnyddiwch y nodiadau i'ch cynorthwyo i gwblhau tudalen *Cyflogaeth* eich ffurflen dreth.

Pwy ddylai ddefnyddio'r dudalen *Cyflogaeth?*

Mae cyflogaeth yn cynnwys swydd fel cyfarwyddwr, cytundebau swyddi ac asiantaethau. Mae angen tudalen *Cyflogaeth* ar wahân arnom ar gyfer pob cyflogaeth, swydd fel cyfarwyddwr, swydd ac ati, er mwyn sicrhau bod eich cod TWE yn gywir ar gyfer y flwyddyn nesaf. Dylech ddefnyddio'r dudalen *Cyflogaeth* i hysbysu incwm o unrhyw gyflogaeth dramor, swydd fel cyfarwyddwr neu swydd dramor.

Deiliaid swyddi

Os ydych yn dal swydd (ond nid ydych yn gyfarwyddwr) ac os cawsoch eich talu dim ond treuliau a dalwyd gennych mewn gwirionedd (ni chawsoch unrhyw daliadau eraill o gwbl), bydd dim angen i chi gwblhau tudalen *Cyflogaeth* ar gyfer y swydd honno. Nodwch pam nad ydych yn cwblhau tudalen *Cyflogaeth* yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 19 ar dudalen TR 6 eich ffurflen dreth.

Cyfarwyddwyr

Mae angen tudalen *Cyflogaeth* arnom ar gyfer pob swydd a oedd gennych fel cyfarwyddwr, gydag un eithriad. Hynny yw, pan na fyddwch wedi derbyn taliadau o unrhyw fath (gan gynnwys cyfandaliadau a 'taliadau tybiannol' – gweler isod) a phan na ddarparwyd ychwaith unrhyw fuddiannau o'r swydd honno fel cyfarwyddwr. Nodwch pam nad ydych yn cwblhau tudalen *Cyflogaeth* ar gyfer swydd benodol fel cyfarwyddwr yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 19 ar dudalen TR 6 eich ffurflen dreth.

Dylech gynnwys incwm a dderbyniwyd yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011 hyd yn oed os cafodd ei ennill mewn blwyddyn gynharach, neu os cafodd ei dalu am waith nad yw eto wedi ei wneud, neu os gwnaethoch drefniadau i gymhwyso'r arian mewn rhyw fodd arall.

Incwm

Derbynnir incwm ar y cynharaf o'r dyddiadau canlynol. Yn achos pob cyflogai bydd hyn ar:

- y dyddiad roedd y taliad yn ddyledus, neu
- y dyddiad roedd hawl gennych gael eich talu hyd yn oed os na chawsoch eich talu tan yn ddiweddarach, neu
- y dyddiad roedd unrhyw daliad ar gyfrif yn ddyledus neu'r dyddiad y cawsoch yr hawl i'w dderbyn

ac, ar gyfer cyflogeion sy'n gyfarwyddwyr:

- y dyddiad y cafodd symiau eu credydu i chi yn llyfrau'r cwmni hyd yn oed os nad oeddech yn gallu codi'r arian ar yr adeg honno, neu
- y dyddiad y penderfynwyd eich enillion neu, os cawsant eu penderfynu o flaen llaw, dyddiad olaf y cyfnod y cawsant eu penderfynu.

Darparu gwasanaethau drwy gwmni neu bartneriaeth a thaliadau tybiannol

Os ydych yn darparu gwasanaethau i gleient drwy gwmni neu bartneriaeth, a phetai'r cwmni neu'r bartneriaeth honno ddim yn bodoli buasech wedi bod yn gyflogai y cleient hwnnw, yna cewch eich trin fel petaech wedi derbyn taliad cyflogaeth dybiannol. Dylech gynnwys y taliad hwnnw ym mlwch 1 y dudalen *Cyflogaeth* berthnasol (ac unrhyw dreth a ddidynnwyd ym mlwch 2).

Materion preswylio

Dylech gysylltu â ni, neu gofynnwch i'ch cynghorydd treth am gyngor:

- os nad oeddech yn preswylio neu fel arfer yn preswylio yn y DU yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2010, neu
- os na fyddwch yn preswylio neu fel arfer yn preswylio yn y DU yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2012,

a chawsoch incwm o gyflogaeth yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011, ar gyfer cyflogaeth yn y ddwy flynedd hynny.

Incwm o gyflogaeth, swydd fel cyfarwyddwr neu swydd dramor

Os ydych yn hawlio rhyddhad credyd treth dramor ar incwm a gynhwyswyd ar y dudalen *Cyflogaeth*, rhaid i chi lenwi'r tudalennau *Tramor*. Gweler tudalennau FN 15 ac FN 16 y nodiadau *Tramor*.

Defnyddiwch flwch 13 ar dudalen 2 y tudalennau *Gwybodaeth ychwanegol* i nodi treth dramor a dalwyd gennych ar incwm o'ch cyflogaeth, pan nad ydych yn gwneud cais am ryddhad credyd treth dramor.

Peidiwch â chynnwys treth dramor ym mlwch 2 o'r dudalen *Cyflogaeth*.

Dylech gynnwys y canlynol ar y dudalen Cyflogaeth

- Cyflogau, ffioedd, comisiynau, taliadau goramser, bonysau a thaliadau cytundebol eraill
- Incwm cyflogaeth 'tybiannol' (gweler tudalen EN 1)
- Cildyrnau a rhoddion
- Honoraria a thaliadau tebyg
- Taliadau cymhelliad neu daliadau croeso
- Taliadau a wnaed gan eich cyflogwr i gydnabod newidiadau yn amodau eich cyflogaeth a thaliadau 'anuniongyrchol' eraill
- Cyfandaliadau a dalwyd yn lle symiau wythnosol neu fisol, gan gynnwys taliadau a wnaed i'ch annog i aros yn y gyflogaeth honno
- Tâl salwch, gan gynnwys Tâl Salwch Statudol a dalwyd gan eich cyflogwr
- Tâl Mamolaeth, Tadolaeth neu Fabwysiadu Statudol a dalwyd gan eich cyflogwr
- Taliadau a dalwyd i chi tra'n gweithio i asiantaeth
- Benthyciadau a ddilëwyd a wnaed yn rhinwedd eich cyflogaeth
- Taliadau gan ymddiriedolwyr cynllun rhannu elw a gymeradwywyd
- Incwm o gynlluniau gohirio talu cydnabyddiaeth

Cynhwyswch yr holl incwm a dderbyniwyd yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011.
Dylech hefyd gynnwys incwm:

- y gallech fod wedi ei dderbyn ond gwnaethpwyd trefniadau i'w dalu mewn man arall.
- a enillwyd mewn blwyddyn dreth gynharach ond a gafodd ei dalu yn y flwyddyn hon
- a dalwyd am waith na chafodd ei wneud erbyn 5 Ebrill 2011.

Byddwn yn eich trethu ar gyfer y flwyddyn dreth pan gododd eich hawl i'r incwm, os yw hynny'n gynharach na'r flwyddyn y cafodd ei dalu ynddi.

Dylech eithrio'r canlynol ar y dudalen Cyflogaeth

Eitemau na ddylid eu cynnwys ar y dudalen *Cyflogaeth*, neu mewn unrhyw fan arall ar eich ffurflen dreth

- Rhodd-daliadau a roddir drwy'r gyflogres
- Rhyddhad am gyflog a delir ar sail elw a gyfrifwyd gan eich cyflogwr
- Cyfraniadau i gynllun pensiwn eich cyflogwr
- Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Treth Plant.

Dylech gynnwys y canlynol ar y tudalennau *Gwybodaeth ychwanegol* a gynhwyswyd ym mhecyn eich ffurflen dreth

- Cyfandaliadau a buddiannau a dalwyd ar neu'n dilyn neu fel arall, mewn perthynas â therfynu eich cyflogaeth, ymddeoliad neu farwolaeth, a thaliadau neu fuddiannau gan gyn gyflogwr neu a dalwyd am eich bod wedi cytuno i gyfyngu ar eich gweithgareddau
- Cyfranddaliadau neu fuddiannau mewn cyfranddaliadau a gafwyd am ddim neu'n rhad
- Symiau a gafwyd am drosglwyddo, dileu, rhyddhau neu mewn perthynas â pheidio ag arfer opsiwn cyfranddaliadau.

Os ydych wedi dechrau neu orffen cyflogaeth yn ystod y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011, nodwch y dyddiad y dechreuodd neu y gorffennodd eich cyflogaeth yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 19 ar dudalen TR 6 eich ffurflen dreth.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Incwm a manylion y gyflogaeth

Blwch 1 ***Cyflog o'r gyflogaeth hon – y cyfanswm o'ch P45 neu eich P60***

Rhaid i'ch cyflogwr roi cofnod o'ch cyflog a'r dreth i chi. Os oeddech yn gweithio ar 5 Ebrill 2011 cewch P60 *Tystysgrif Diwedd Blwyddyn* erbyn 31 Mai 2011. Nodwch y ffigur sydd yn y blwch 'Yn y gyflogaeth hon' a welir ar eich P60 ym mlwch 1.

Os gadawsoch gyflogaeth yn ystod y flwyddyn byddwch wedi derbyn P45 Rhan 1A. Nodwch y ffigur sydd yn y blwch 'Cyfanswm y cyflog yn y gyflogaeth hon' ar y P45 ym mlwch 1 ar y dudalen *Cyflogaeth* ar gyfer pob cyflogaeth.

Os oedd gennych fwy nag un swydd yn ystod y flwyddyn dreth, efallai y bydd eich P60 yn cynnwys manylion cyflog a threth cyflogaeth gynharach. Rhowch y manylion hynny ar dudalen *Cyflogaeth* arall.

Dylech ddidynnu o'r ffigur ar y P60 neu'r P45 unrhyw daliad (cyn didynnu treth) a gynhwyswyd mewn perthynas â chyfandaliadau a buddiannau a dalwyd ar, neu'n dilyn, terfynu cyflogaeth, ymddeoliad neu farwolaeth, taliadau neu fuddiannau gan gyn gyflogwr neu a dalwyd am gytuno i gyfyngu ar eich gweithgareddau. Dylid cynnwys y taliadau hyn ar y tudalennau *'Gwybodaeth ychwanegol'*.

Y ffigur ym mlwch 1 yw ffigur eich cyflog ar ôl tynnu cyfraniadau i gynllun pensiwn eich cyflogwr (weithiau gelwir hyn 'blwydd-dal ymddeol' neu 'superannuation'). Cymerwch ofal wrth gopïo'r ffigur hwn o'ch P60 i'r dudalen *Cyflogaeth*.

Os cawsoch Lwfans Ceisio Gwaith yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011 efallai y bydd wedi ei gynnwys ar eich P60 neu efallai y bydd ar P45 Rhan 1A – nodwch hwn ym mlwch 14 ar dudalen TR3 eich ffurflen dreth yn yr adran 'Incwm', nid eich tudalen *Cyflogaeth*.

Mae Taflen Gymorth 208 *Payslips and coding notices* yn sôn wrthych ym mha le y gallwch gael gwybodaeth i'ch helpu i nodi manylion cywir cyflog a threth ym mlychau 1 a 2.

Blwch 2 ***Treth y DU a ddidynnwyd o'r cyflog ym mlwch 1***

Os oes 'R' nesaf at y ffigur ar gyfer treth a ddidynnwyd ar eich P60, nodwch y swm a rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll.

Blwch 3 ***Cildyrnau a thaliadau eraill nad ydynt ar eich P60***

Dylech gynnwys yr holl gildyrnau a rhoddion, hyd yn oed os cânt eu talu gan drydydd parti.

Blwch 4 ***Cyfeirnod treth TWE eich cyflogwr (ar eich P45/P60)***

Mae cyfeirnod treth TWE eich cyflogwr i'w weld ar eich P45/P60. Nodwch 'Dim' ym mlwch 4 os, fel eithriad, does dim cyfeirnod treth TWE gan eich cyflogwr.

Blwch 7 ***Os oedd y cwmni yn gwmni caeedig***

Yn fras, mae cwmni caeedig yn un sy'n cael ei reoli gan:
- pump neu lai o gyfranogwyr – y rheiny sydd â chyfran neu fuddiant yn incwm neu gyfalaf y cwmni, er enghraifft cyfranddalwyr neu rai credydwyr benthyciadau
- unrhyw nifer o gyfranogwyr os ydynt yn gyfarwyddwyr.

Blwch 8 ***Os ydych yn athro/athrawes rhan amser yng Nghymru neu Loegr ac ar y Cynllun Ad-dalu Benthyciadau Athrawon ar gyfer y gyflogaeth hon***

Bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr wedi hysbysu eich cyflogwr os ydych wedi eich derbyn i Gynllun Ad-dalu Benthyciadau Athrawon ar gyfer y gyflogaeth hon. Os felly, ni chesglir taliadau ar gyfer benthyciad myfyriwr oddi wrthych.

Buddiannau o'ch cyflogaeth

Mae'n ofynnol ar eich cyflogwr i ddweud wrthym ar ffurflen P11D ynghylch yr holl fuddiannau a threuliau trethadwy a ddarparwyd neu a dalwyd i chi. Gallant naill ai roi copi o'r P11D neu roi'r un wybodaeth i chi, ac mae'n rhaid iddynt wneud hyn erbyn 6 Gorffennaf 2011. Os na fyddwch wedi ei derbyn erbyn hynny, dylech siarad gyda'ch cyflogwr neu ein ffonio ni.

Os oes goddefeb gan eich cyflogwr (trefniant gyda ni sy'n eich arbed rhag gorfod datgan incwm ac yna gofyn i ni am ryddhad treth am yr un swm) efallai na fydd rhai buddiannau a threuliau yn ymddangos ar eich P11D. Peidiwch â phryderu ynglŷn â hyn a pheidiwch â'u nodi ar eich tudalen *Cyflogaeth*.

Os fel eithriad, na fyddwch yn cael copi o'r ffurflen P11D neu os bydd angen cyfrifo'r buddiant arnoch eich hun, mae'r taflenni cymorth canlynol yn rhoi gwybodaeth bellach:

Taflen Gymorth 201 *Vouchers, credit cards and tokens*

Taflen Gymorth 202 *Living accommodation*

Taflen Gymorth 203 *Car benefits and car fuel benefits*

Taflen Gymorth 207 *Non-taxable payments or benefits for employees*

Taflen Gymorth 210 *Assets provided for private use*

Taflen Gymorth 213 *Payments in kind – assets transferred*

Blwch 9 *Ceir a faniau'r cwmni*

Nodwch gyfanswm y ffigurau ym mlychau 9 yn adrannau F a G ar y P11D.
Os defnyddiwch eich cerbyd eich hun ar gyfer eich gwaith (nid dim ond ar gyfer mynd yn ôl ac ymlaen i'r gwaith), peidiwch â defnyddio'r blwch hwn, ond darllenwch y nodiadau ar gyfer blychau 12 a 17.

Blwch 10 *Tanwydd ar gyfer ceir a faniau'r cwmni*

Nodwch gyfanswm y ffigurau ym mlychau 10 yn adrannau F a G ar y P11D.

Blwch 11 *Yswiriant meddygol a deintyddol preifat*

Nodwch y ffigur ym mlwch 11 adran I ar y P11D.

Blwch 12 *Talebau, cardiau credyd a lwfansau milltiroedd gormodol*

Os bydd eich cyflogwr wedi rhoi talebau neu gardiau credyd i chi nodwch y ffigur o flwch 12 adran C y P11D. Dylai hwn gynnwys unrhyw nwyddau neu wasanaethau a brynwyd gyda cherdyn credyd neu daleb y cwmni ar eich cyfer chi a'ch teulu neu'ch aelwyd. Os defnyddiwch y talebau neu'r cerdyn credyd er mwyn talu treuliau busnes dylech gynnwys eu gwerth o hyd ym mlwch 12 ond dylech ddidynnu'r swm priodol ym mlwch 17 neu ym mlwch 20.

Os yw eich cyflogwr yn talu lwfans milltiroedd i chi (blwch 12 adran E y P11D) am ddefnyddio eich car, fan, beic modur neu feic eich hun ar gyfer gwaith, bydd yn rhaid i chi dalu treth dim ond os cewch eich talu mwy na:

- ceir a faniau – 40 ceiniog y filltir am y 10,000 milltir gyntaf a 25 ceiniog y filltir ar ôl hynny
- beiciau modur – 24 ceiniog y filltir
- beiciau – 20 ceiniog y filltir.

Os cewch lai na'r uchafswm gallwch wneud cais am ryddhad treth ar y gwahaniaeth – darllenwch y nodiadau ar gyfer blwch 17 ar dudalen EN6.

Os yw eich cyflogwr yn talu swm ychwanegol i chi oherwydd eich bod yn cludo teithwyr wrth deithio ar deithiau sy'n deithiau busnes i chi a'ch cyd-deithiwr, bydd yn rhaid i chi dalu treth dim ond os cewch eich talu mwy na phum ceiniog y filltir y teithiwr. Os cewch eich talu swm sy'n llai na'r uchafswm, ni allwch gael rhyddhad treth am y diffyg.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Blwch 13 ***Nwyddau ac asedion eraill a ddarparwyd gan eich cyflogwr***

Nodwch gyfanswm y ffigurau ym mlychau 13 yn adrannau A a L ar y P11D. Fel arfer y ffigur hwn bydd gwerth marchnad unrhyw nwyddau a roddir i chi gan eich cyflogwr ond gallai fod yn ffigur uwch os oedd y gost i'r cyflogwr o greu'r eitem yn fwy na'i gwerth marchnad.

Blwch 14 ***Llety a ddarparwyd gan eich cyflogwr***

Nodwch unrhyw ffigur o flwch 14 yn adran D ar y P11D. Dylech gysylltu â ni os credwch y dylid eithrio'r swm llawn hwn neu ran ohono rhag treth.

Blwch 15 ***Buddiannau eraill (gan gynnwys benthyciadau di-log neu log isel)***

Ychwanegwch at ei gilydd yr holl symiau a welir yn y blychau wedi ei nodi fel '15' ar y P11D a rhowch y canlyniad ym mlwch 15 ar y tudalennau *Cyflogaeth*. Ceir sylwadau ychwanegol isod ynghylch rhai o'r blychau a nodir fel '15'.

Taliadau a wnaed ar ran y cyflogai

Dylai'r ffigur gynnwys hefyd unrhyw daliad y mae eich cyflogwr yn ei wneud ar gyfer, er enghraifft:

- eich rhent, a delir yn uniongyrchol i'ch landlord
- bil eich cerdyn credyd personol a delir yn uniongyrchol i gwmni'r cerdyn credyd
- eich treth.

Ar rhai achlysuron gallai eich cyflogwr eich talu mewn ffurf heblaw mewn arian parod a thalu'r dreth sy'n ddyledus ar eich rhan. Os yw'r dreth TWE honno yn fwy na'r cyflog sy'n ddyledus yn y cyfnod cyflog, ac os o fewn 90 diwrnod o dderbyn y taliad tybiannol nad oeddech wedi ad-dalu'r gwahaniaeth i'ch cyflogwr, yna dylech nodi'r swm ym mlwch 15.

Benthyciadau di-log a llog isel

Nodwch y ffigur o flwch 15 adran H ar y P11D. Peidiwch â nodi'r swm a fenthycwyd, dim ond y gwahaniaeth rhwng y llog a dalwyd gennych (os o gwbl) a'r hyn y byddech wedi ei dalu petai'r benthyciad wedi bod ar y gyfradd llog swyddogol. Os oes angen fwy o wybodaeth arnoch, yna cysylltwch â ni.

Pecynnau adleoli

Os byddwch yn symud tŷ, ystyrir bod unrhyw daliadau a dalwyd i chi (neu nwyddau neu wasanaethau a ddarperir ar eich cyfer) gan eich cyflogwr yn rhan o'ch enillion trethadwy. Ond os ydych yn symud tŷ ar gyfer gwaith ac yn cwrdd â rhai amodau penodol, bydd yr £8,000 cyntaf o unrhyw gymorth a gewch yn rhydd o dreth.

Mae'r £8,000 honno ar gyfer symud yn ei gyfanrwydd ac nid ar gyfer pob blwyddyn dreth. Bydd eich cyflogwr yn eich cynorthwyo i gyfrifo'r hyn ddylid ei gynnwys ym mlwch 15 ac yn dweud wrthym p'un a ddarparwyd unrhyw dreuliau neu fuddiannau i chi yn uwch na £8,000.

Blwch 16 Taliadau am dreuliau a dderbyniwyd a thaliadau mantoli

Rhennir y rhain i dair prif adran:

- teithio a chynhaliaeth – cynhwyswch symiau ar gyfer costau teithio, gwestai, prydau ac ati, gan gynnwys teithio rhwng eich cartref a'ch gweithle parhaol. Peidiwch â chynnwys ad-daliadau treuliau mewn perthynas â char neu fan cwmni. Gweler y nodiadau ar gyfer blychau 12 a 17 os yw eich cyflogwr yn talu lwfans i chi am ddefnyddio eich cerbyd eich hun ar gyfer busnes y cwmni
- gwesteia – dylech gynnwys yr holl symiau a ad-dalwyd i chi, unrhyw symiau cronnol a dalwyd, unrhyw lwfans gwesteia penodol ac unrhyw symiau a dalwyd i drydydd parti
- lwfans am dreuliau cyffredinol.

Nodwch ym mlwch 16 gyfanswm y ffigurau o flychau 16 adran N y P11D.

Taliadau mantoli

Bydd hyn yn gymwys dim ond os byddwch yn gwaredu ased yr oeddech yn derbyn lwfansau cyfalaf ar ei gyfer (ac nid yw'n gymwys ar gyfer cerbydau modur). Os credwch y gallech gael eich effeithio, cysylltwch â ni.

Treuliau cyflogaeth

Blwch 17 *Treuliau teithiau busnes a chynhaliaeth*

Gallwch ddidynnu'r costau y bu rhaid i chi eu talu wrth gyflawni eich swydd yn unig. Os yw eich cyflogwr wedi cytuno ar oddefeb gyda ni, rhaid i chi beidio â didynnu unrhyw dreuliau a gynhwysir yn yr oddefeb honno. Os bydd angen help arnoch ynglŷn â hyn, mynnwch air ag adran gyflogau eich cyflogwr neu cysylltwch â ni.

Costau teithio

Ni allwch gael rhyddhad treth ar gyfer costau teithio o'ch cartref i'ch gweithle arferol. Fodd bynnag, gallwch ddidynnu cost teithiau busnes – p'un a ydynt yn y DU neu dramor – yn ogystal â'r costau sydd ynghlwm wrth deithio sef llety a phrydau bwyd.

Mae teithiau busnes y cynnwys:

- teithio o un gweithle i un arall yn yr un gyflogaeth
- teithio rhwng eich cartref a gweithle dros dro (rhywle y byddwch yn gweithio yno am lai na dwy flynedd, oni bai eich bod yn gweithio yno am y cyfan neu bron y cyfan o gyflogaeth tymor byr).

Os mai teithio yw eich swydd, gallwch ddidynnu costau teithio a phrydau ac ati o'r adeg pan adewch eich cartref. Ond os ydych yn byw cryn bellter o'r ardal lle'r ydych yn gweithio ynddi, ni allwch ddidynnu'r costau ar gyfer cyrraedd yr ardal honno.

Defnyddio eich car, fan, beic modur neu eich beic eich hun

Os yw eich cyflogwr yn talu llai nag uchafswm y lwfans milltiroedd (gweler y nodiadau ar gyfer blwch 12 ar dudalen EN 4) gallwch wneud cais am ryddhad treth am y diffyg, ond ni allwch gael rhyddhad treth am eich treuliau gwirioneddol, os ydynt yn fwy. Cadwch gofnod o'r milltiroedd busnes a deithiwch a'r lwfansau milltiroedd a dalwyd i chi.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Enghraifft

Rydych wedi teithio 16,000 milltir ar fusnes yn eich car eich hun. Y mwyaf y gallwch dderbyn heb dalu treth yw:

10,000 milltir ar 40 ceiniog y filltir	£4,000
6,000 milltir ar 25 ceiniog y filltir	£1,500
	£5,500

Os talwyd £3,500 i chi yn unig gan eich cyflogwr, gallwch ddidynnu'r gwahaniaeth sef £2,000 fel treuliau ym mlwch 17.

Ychwanegwch yr holl gostau teithio caniataol at ei gilydd gan gynnwys costau prydau bwyd a llety perthynol, treuliau busnes, er enghraifft galwadau ffôn, costau ffacs neu lungopïo a nodwch y cyfanswm ym mlwch 17.

Blwch 18 ***Didyniadau sefydlog ar gyfer treuliau***

Mae didyniadau sefydlog yn symiau ar gyfer treuliau ar gyfradd unffurf y byddwn wedi cytuno gydag undebau llafur perthnasol, neu gyrff eraill, i gwmpasu'r gost o gynnal neu amnewid offer neu ddillad gwaith arbennig.

Does dim rhaid i chi fod yn aelod o undeb llafur i gael y treuliau. Efallai eu bod wedi eu cynnwys yn eich Hysbysiad Cod TWE. Os yw eich cod yn cynnwys addasiad ar gyfer y treuliau hyn ar gyfer blwyddyn flaenorol, yna cysylltwch â ni.

Efallai y byddwch am ddidynnu'r swm gwirioneddol a wariwyd gennych ar offer neu ddillad gwaith arbennig yn hytrach na'r swm sefydlog. Os felly, gadewch flwch 18 yn wag a nodwch y swm gwirioneddol a wariwyd ym mlwch 20.

Blwch 19 ***Ffioedd a thanysgrifiadau proffesiynol***

Efallai y bydd hawl gennych gael didyniad ar gyfer rhai ffioedd penodol y mae'n rhaid i chi eu talu er mwyn cyflawni eich proffesiwn a thanysgrifiadau blynyddol i gyrff proffesiynol rydym wedi eu cymeradwyo ac sy'n berthnasol i'ch gwaith. Mae rhestr o gyrff proffesiynol a gymeradwywyd a ffioedd a thanysgrifiadau y gellir eu caniatáu i'w weld yn **www.hmrc.gov.uk/list3/index.htm**. Gall y corff proffesiynol ddweud wrthych faint y caniateir i chi nodi ym mlwch 19.

Blwch 20 ***Treuliau a lwfansau cyfalaf eraill***

Gallwch ddidynnu treuliau angenrheidiol yn unig – y rheiny y byddai'n rhaid i bob person sy'n cyflawni'r union swydd â chi eu talu – ac mae'n rhaid eu bod wedi eu talu wrth i chi wneud eich swydd, nid eich cael mewn sefyllfa lle'r gallech wneud eich swydd. Os yw eich Hysbysiad Cod TWE yn dangos addasiad ar gyfer y treuliau hyn ar gyfer blwyddyn gynharach, yna dylech gysylltu â ni.

Treuliau gwesteia

Fel arfer nid oes hawl gennych gael rhyddhad treth ar gyfer treuliau gwesteia ar gyfer busnes, ond os fel eithriad bydd eich cyflogwr:

- wedi ticio'r blwch gyferbyn â 'gwesteia' ar eich P11D, ac
- roedd y treuliau hynny yn hollol angenrheidiol i gyflawni eich swydd, ac
- mae eich cyflogwr naill ai wedi eich ad-dalu chi neu wedi talu lwfans i chi yn benodol ar gyfer gwesteia

yna gallwch dynnu didyniad. Ni ddylai'r didyniad hwnnw fod yn fwy na'r swm a dalwyd i chi gan eich cyflogwr.

Lwfansau cyfalaf

Efallai y bydd hawl gennych dderbyn lwfansau cyfalaf (lwfansau treth am ddibrisiant) ar gyfer eich costau am gyfarpar a ddefnyddir yn eich cyflogaeth. **Ni allwch gael lwfansau cyfalaf ar gyfer car, fan, beic modur neu feic – ond gallwch gael rhyddhad lwfans milltiroedd** (gweler blwch 17) sy'n cynnwys dibrisiant.

Ceir sawl math o lwfansau cyfalaf yn dibynnu ar y gost, math o ased, a'r amodau cymhwyso, er enghraifft, Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB), lwfans 'cronfeydd bychain' a 'lwfans ar bapur' (WDA). Mae'r nodiadau isod yn drosolwg byr o'r lwfansau sy'n berthnasol i gyflogeion. Mae taflen gymorth 252 *Capital allowances and balancing charges* yn rhoi fwy o wybodaeth ynglŷn â'r lwfansau amrywiol sydd ar gael ac yn cynnwys adran ar lwfansau cyfalaf i gyflogeion.

Gallwch hawlio'r LBB os gwnaethoch brynu cyfarpar yn ystod y flwyddyn hyd at swm blynyddol o £100,000. Ychwanegwch gost y cyfarpar at ei gilydd ac, os bydd cyfanswm y gost yn £100,000 neu lai, gallwch hawlio 100% o'r swm llawn hwnnw fel eich LBB. Os bydd cyfanswm y gost yn fwy na £100,000, yna gallwch hawlio hyd at £100,000 o'r cyfanswm fel eich LBB.

Os yw'r gweddill, ar ôl hawlio LBB, ynghyd ag unrhyw weddill a gariwyd ymlaen o unrhyw flwyddyn flaenorol, llai unrhyw swm a gawsoch drwy waredu cyfarpar nad ydych yn ei ddefnyddio bellach (er enghraifft, ei werthu), yn £1,000 neu lai, gallwch hawlio'r swm llawn fel lwfans cronfeydd bychain.

Pan fyddwch wedi gwario mwy na £100,000 mewn blwyddyn ar gyfarpar:
- ychwanegwch yr holl wariant at ei gilydd i greu 'prif gronfa' gostau
- didynnwch unrhyw LBB hyd at £100,000 o'r brif gronfa honno
- ychwanegwch werth unrhyw brif gronfa o'r flwyddyn flaenorol
- didynnwch werth unrhyw warediadau a wnaethoch yn ystod y flwyddyn.

Gallwch wedyn hawlio lwfans ar bapur sy'n 20% o weddill gwerth y gronfa.

Cynhwyswch gyfanswm y lwfansau cyfalaf hyn ym mlwch 20.